


WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Adroddiad Gwella Blynyddol

## Cyngor Sir Fynwy

Cyhoeddwyd: Mehefin 2014
Cyfeirnod y ddogfen: 207A2014

# Archwilydd Cyffredinol Cymru

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth a chaiff ei benodi gan Ei Mawrhydi y Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Caiff Swyddfa Archwilio Cymru ei dwyn i gyfrif gan y Cynulliad Cenedlaethol.

Ar y cyd ag archwilwyr penodedig, mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, y gwasanaeth prawf, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol a chynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau o werth am arian yng nghyswllt llywodraeth leol ac yn asesu'r graddau y cydymffurfir â gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddi ac sy'n gysylltiedig â hi, Comisiwn y Cynulliad a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Nod yr Archwilydd Cyffredinol a staff Swyddfa Archwilio Cymru yw darparu adroddiadau cymesur, sy'n canolbwyntio ar y cyhoedd, ynghylch y modd y caiff adnoddau cyhoeddus eu gwarchod, ac wrth wneud hynny, meithrin dealltwriaeth a hyrwyddo gwelliannau.

Paratowyd yr Adroddiad Gwella Blynyddol hwn ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru gan Non Jenkins ac Alex Rawlin o dan gyfarwyddyd Alan Morris.

# Cynnwys


**Adroddiad cryno ac argymhellion** 4

**Adroddiad manwl**

Cyflwyniad 6

Cymysg fu hynt y Cyngor yn 2012-13 wrth gyflawni gwelliannau 7

Gwellodd trefniadau cynllunio gwelliant y Cyngor ar gyfer 2012-13 a chafwyd rhai enghreifftiau o waith craffu da, ond erys rhai gwendidau o ran y trefniadau ar gyfer dangosyddion lleol, cynnal asesiadau a chraffu ar berfformiad 20

Methodd y Cyngor â chyflawni rhai o'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14 ac nid oedd yn sicr p'un a oedd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2013-14 24

Nid yw'n sicr p'un a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15 28

**Atodiadau**

Atodiad 1
Statws yr adroddiad hwn 30

Atodiad 2
Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Fynwy a Chyngor Sir Fynwy 31

Atodiad 3
Llythyr Archwilio Blynyddol 33

Atodiad 4
Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy 36

# Adroddiad cryno ac argymhellion

1 Bob blwyddyn, rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad yn nodi pa mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub, a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar waith yr arolygiaethau perthnasol yng Nghymru, yn ogystal â gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r adroddiad yn ymdrin â threfniadau Cyngor Sir Fynwy (y Cyngor) ar gyfer darparu a gwerthuso gwasanaethau yn ystod 2012-13, ei gynlluniau gwelliant ar gyfer 2013-14 a, chan ystyried y rhain, daw i gasgliad o ran p'un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn y bydd y Cyngor yn gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

2 Cafwyd gennym mai cymysg fu hynt y Cyngor yn 2012-13 wrth gyflawni gwelliannau mewn meysydd â blaenoriaeth a bod lefelau perfformiad yn gymysg o gymharu â chynghorau eraill. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- cymysg fu hynt y Cyngor yn 2012-13 wrth gyflawni gwelliannau yn ei feysydd â blaenoriaeth; a
- cymysg fu perfformiad hefyd ar y mesurau a'r gwasanaethau pellach y gellir eu cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru.

3 Cafwyd gennym hefyd fod trefniadau cynllunio gwelliant y Cyngor ar gyfer 2012-13 wedi gwella a chafwyd rhai enghreifftiau o waith craffu da, ond erys rhai gwendidau o ran y trefniadau ar gyfer dangosyddion lleol, cynnal asesiadau a chraffu ar berfformiad. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- rhoddwyd barn ddiamod ar gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2012-13 ac roedd y datganiadau ariannol o safon dda;
- gwellodd y Cyngor ei ddull o gynllunio gwelliant yn 2012-13 ond roedd angen mwy o gysondeb â chynlluniau strategol a chysylltiadau cliriach rhwng gweithgareddau a mesurau;
- dechreuodd trefniadau'r Cyngor ar gyfer gwerthuso ei berfformiad yn ystod 2012-13 wella ond roedd rhai gwendidau yn y trefniadau ar gyfer dangosyddion lleol;
- roedd rhai enghreifftiau o waith craffu da ond, yn gyffredinol, roedd y trefniadau ar gyfer craffu ar berfformiad a'i herio yn anghyson ac nid oedd asesiadau'r Cyngor o berfformiad bob amser yn gytbwys; a
- cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur ar gyfer 2012-13, ond dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru.

4 Yn olaf, cafwyd gennym fod y Cyngor wedi methu â chyflawni rhai o'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14 ac nid oedd yn sicr p'un a oedd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2013-14. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

- methodd y Cyngor â chyflawni rhai o'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur a dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru; a
- nid oedd yn sicr p'un a yw'r Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod y flwyddyn ariannol hon.

5 Gan ystyried yr uchod, mae'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn nad yw'n sicr p'un a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

## Argymhellion

Yn ystod ein gwaith yn 2013-14, gwnaethom un argymhelliad statudol a gyhoeddwyd yn flaenorol ac a gyflwynwyd i'r Cyngor yn Llythyr Asesiad Gwella'r Archwilydd Cyffredinol dyddiedig Medi 2013 ac fe'i nodir isod er gwybodaeth.

| | |
|---|---|
| A1 | Rhoi trefniadau ar waith sy'n galluogi'r Cyngor i lunio a chraffu ar ei amcanion gwella a'u cymeradwyo a'u cyhoeddi yn amserol er mwyn cyflawni ei rwymedigaethau statudol o dan y Mesur a sicrhau ei fod yn fwy hygyrch i ddinasyddion. |

# Adroddiad manwl

## Cyflwyniad

6 O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur), mae'n rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol gyflwyno adroddiad bob blwyddyn ar ba mor dda y mae cynghorau, awdurdodau tân ac achub a pharciau cenedlaethol Cymru yn cynllunio ar gyfer gwella wrth ddarparu eu gwasanaethau. Mae Atodiad 1 yn rhoi rhagor o wybodaeth am bwerau a dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol o dan y Mesur. Gyda chymorth gan arolygiaethau yng Nghymru, Estyn (ar gyfer addysg), Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) a Chomisiynydd y Gymraeg, rydym wedi llunio darlun o'r hyn y mae pob cyngor neu awdurdod yng Nghymru yn ceisio ei gyflawni, sut mae'n gwneud hynny, a'r cynnydd y mae'r Cyngor wedi'i wneud ers i'r Archwilydd Cyffredinol gyhoeddi ei adroddiad gwella blynyddol diwethaf. Mae'r adroddiad hefyd yn seiliedig ar hunanasesiad y Cyngor ei hun. Yn olaf, gan ystyried hyn oll, daw'r adroddiad i gasgliad o ran p'un a yw'r Archwilydd Cyffredinol o'r farn bod y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15.

7 Nid ydym yn cynnal adolygiad blynyddol cynhwysfawr o holl drefniadau na holl wasanaethau'r Cyngor. Mae'r casgliadau yn yr adroddiad hwn yn seiliedig ar ein gwybodaeth gronnol a chyffredin a chanfyddiadau'r gwaith wedi'i flaenoriaethu a gyflawnwyd eleni.

8 O ystyried yr ystod eang o wasanaethau a ddarperir a'r heriau y mae'r Cyngor yn eu hwynebu, byddai'n anarferol pe na baem yn dod o hyd i bethau y gellir eu gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol:

- wneud cynigion ar gyfer gwella - os caiff cynigion eu gwneud i'r Cyngor, byddem yn disgwyl iddo weithredu arnynt a byddwn yn gwneud gwaith dilynol ar yr hyn sy'n digwydd;
- gwneud argymhellion ffurfiol ar gyfer gwella - os caiff argymhelliad ffurfiol ei wneud, mae'n rhaid i'r Cyngor baratoi ymateb i'r argymhelliad hwnnw o fewn 30 diwrnod gwaith;
- cynnal arolygiad arbennig a chyhoeddi adroddiad a gwneud argymhellion; ac
- argymell y dylai Gweinidogion Llywodraeth Cymru ymyrryd mewn rhyw ffordd.


9 Rydym am wybod a yw'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth sydd ei hangen arnoch ac a yw'n hawdd ei ddeall. Gallwch fynegi eich barn drwy anfon e-bost atom yn info@wao.gov.uk neu ysgrifennu atom yn 24 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9LJ.

# Cymysg fu hynt y Cyngor yn 2012-13 wrth gyflawni gwelliannau


10 Yn Adolygiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2012-13, nododd y Cyngor fod perfformiad gwasanaethau wedi gwella mewn bron i ddwy ran o dair o'i ddangosyddion perfformiad cymaradwy.

11 Er i'r Cyngor nodi yn ei Adolygiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2012-13 nad yw Dangosyddion Strategol Cenedlaethol na Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus bob amser yn adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor, noda hefyd, o gymharu â chynghorau eraill, fod Sir Fynwy yn y chwartel uchaf ar gyfer hanner y dangosyddion cenedlaethol a gyhoeddwyd. Nodir gwerthusiad y Cyngor ei hun o'i berfformiad yn erbyn ei feysydd â blaenoriaeth a gwasanaethau lleol allweddol eraill a gwmpesir gan y dangosyddion cenedlaethol isod.


**Monmouthshire Performance Indicators 2012/13**





**Monmouthshire Comparative Performance**





**Protecting Vulnerable People**





**Education**




**Economic Development**




**Other Key Local Services**




*Ffynhonnell: Adolygiad Perfformiad Blynyddol Cyngor Sir Fynwy ar gyfer 2012-13*

12 Nodir ein dadansoddiad o’r 44 o ddangosyddion strategol cenedlaethol a mesurau atebolrwydd cyhoeddus ar gyfer 2012-13 isod.

| | Blwyddyn Gyfredol | Blwyddyn Flaenorol |
|---|---|---|
| **Dangosyddion Strategol Cenedlaethol:** | | |
| Nifer y DSCau | 30 | 30 |
| Nifer y mae eu gwerth gwirioneddol wedi **GWELLA** | 12 | |
| Nifer y mae eu gwerth gwirioneddol wedi **GWAETHYGU** | 6 | |
| Nifer y mae eu GRADD wedi **GWELLA** | 9 | |
| Nifer y mae eu GRADD wedi **GWAETHYGU** | 6 | |
| Nifer sy'n **UWCH** na chyfartaledd Cymru | 15 | 9 |
| Nifer sy'n **IS** na chyfartaledd Cymru | 14 | 12 |
| Nifer â THARGED sy'n anelu at **WELLA** | 5 | |
| Nifer â THARGED sy'n anelu at **WAETHYGU** | 1 | |
| **Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus:** | | |
| Nifer y MACau | 14 | 14 |
| Nifer y mae eu gwerth gwirioneddol wedi **GWELLA** | 8 | |
| Nifer y mae eu gwerth gwirioneddol wedi **GWAETHYGU** | 5 | |
| Nifer y mae eu GRADD wedi **GWELLA** | 7 | |
| Nifer y mae eu GRADD wedi **GWAETHYGU** | 5 | |
| Nifer sy'n **UWCH** na chyfartaledd Cymru | 9 | 10 |
| Nifer sy'n **IS** na chyfartaledd Cymru | 4 | 4 |
| Nifer â THARGED sy'n anelu at **WELLA** | 0 | |
| Nifer â THARGED sy'n anelu at **WAETHYGU** | 0 | |

13 Ym mis Mehefin 2012, cyhoeddodd y Cyngor ei Gynllun Gwella a nododd ei flaenoriaethau a'i gamau gweithredu ar gyfer 2012-13. Ceir crynodeb o Amcanion Gwella'r Cyngor ar gyfer 2012-13 isod:

- Dod â gwasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol ac asiantaethau annibynnol ynghyd i greu model unigol o ofal yn y gymuned (Rhaglen Eiddilwch Gwent) a rhoi'r rhaglen 'Missing link' ar waith er mwyn gwella ein hymateb i blant sydd ar goll.
- Gwella ffyniant ein sir a'i hatyniad i fusnesau, gan helpu busnesau sy'n bodoli eisoes a busnesau newydd a sicrhau'r elw mwyaf posibl ar fuddsoddiadau yn ein heconomi dwristiaeth.
- Mynd ati i adfywio a datblygu'r ardal mewn ffordd gydgysylltiedig a chynhwysfawr gan weithio mewn partneriaeth i ddatblygu cynlluniau ar gyfer ein trefi allweddol, sef y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy a chymunedau llai.
- Gwella'r ffordd rydym yn darparu addysg er mwyn sicrhau'r cyfleoedd dysgu gorau i'n plant, ein pobl ifanc a'n cymuned. Rhoi'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar waith, dechrau gwella safleoedd ysgolion er mwyn darparu addysg ar gyfer yr 21ain ganrif a gwella'r seilwaith TGCh mewn ysgolion.
- Cynyddu faint o wastraff a gaiff ei drin mewn ffordd gynaliadwy a gweithio tuag at ddewis amgen cynaliadwy hirdymor i safleoedd tirlenwi. Datblygu Prosiect Gwyrdd er mwyn cynnig ffordd hirdymor a chynaliadwy o drin gwastraff gweddilliol.
- Moderneiddio'r ffordd y caiff y cyngor ei redeg er mwyn gwella ein dull o weithio. Newid diwylliant ein sefydliad er mwyn sicrhau ein bod yn gwrando ar yr hyn y mae ein cymunedau am ei gael ac yn dod yn fwy ymatebol ac arloesol wrth ddiwallu'r anghenion hynny.

14 Isod ceir asesiad cryno o ba mor dda y mae'r Cyngor yn perfformio wrth gyflawni gwelliant yn erbyn yr amcanion gwella hyn â blaenoriaeth. Ceir gwybodaeth fanylach am gynnydd a chyflawniadau yn Adolygiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2012-13 sydd ar gael ar wefan y Cyngor.

## Cymysg fu hynt y Cyngor wrth gyflawni gwelliannau yn ei feysydd â blaenoriaeth

**Er y gwnaed rhai gwelliannau o ran lleihau achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal, gwella boddhad defnyddwyr a chanlyniadau ailalluogi, cymysg fu perfformiad ym maes gofal cymdeithasol:**

15 Nododd y Cyngor amrywiaeth o gamau gweithredu allweddol i'w helpu i gyflawni'r amcan gwella: Byddwn yn parhau i ddod â gwasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol ac asiantaethau annibynnol ynghyd i greu model unigol o ofal yn y gymuned, sef Rhaglen Eiddilwch Gwent. Yn fwy penodol eleni, byddwn yn parhau i weithredu timau amlddisgyblaeth er mwyn sicrhau arfer integredig a rhoi'r rhaglen 'Missing link' ar waith sy'n anelu at wella ein hymateb i blant sydd ar goll/sydd wedi rhedeg i ffwrdd. Roedd y camau gweithredu

yn cynnwys rhoi Rhaglen Eiddilwch Gwent a'r rhaglen 'Missing Link' ar waith.

16 Nododd y Cyngor chwe mesur perfformiad penodol y byddai'n eu defnyddio i asesu p'un a yw wedi cyflawni ei amcan yn ei Gynllun Gwella ar gyfer 2012-2015; *Looking to the Future, Your County, Your Way*. Noda gwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad ei hun fod ei berfformiad yn dda iawn ar gyfer yr Amcan Gwella hwn, gyda chryfderau sylweddol.

17 Dengys ein gwerthusiad na chyflwynwyd adroddiad mewn perthynas ag un o'r chwe dangosydd, y llwyddodd pedwar ohonynt i gyflawni'r targedau neu ragori arnynt ac na lwyddodd un i gyflawni'r targed. Ni chyflwynwyd adroddiad ar berfformiad y Cyngor o ran nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gwasanaeth Eiddilwch. Rhagorodd y gwasanaeth ar ei dargedau o ran boddhad defnyddwyr (gan gyflawni 96 y cant o gymharu â tharged o 93 y cant), canran y bobl sy'n annibynnol ar ddiwedd cyfnod ailalluogi (gan gyflawni 54 y cant o gymharu â tharged o 52 y cant) a'r gyfradd achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty (gan gyflawni 1.77 o gymharu â tharged o 5.29). O ganlyniad, gwnaeth y Cyngor yn sylweddol well na chyfartaledd Cymru a'r Cyngor oedd y seithfed uchaf yng Nghymru, er mai canlyniad amodol oedd ar gyfer y dangosydd hwn ledled Cymru. Rhagorodd y Cyngor hefyd ar ei darged o ran nifer y bobl hŷn sy'n cael pecynnau gofal yn y gymuned (gan gyflawni 1,167 o gymharu â tharged o 1,263). Methodd y Cyngor â chyflawni'r targed ar gyfer maint cyfartalog y pecyn gofal a gafodd pobl sy'n cael cymorth i'w cadw'n annibynnol (gan gyflawni 10.7 awr o gymharu â tharged o lai na 10.4 awr).

18 Mae AGGCC wedi rhoi adborth cymysg ar berfformiad Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor. Ym mis Hydref 2013, cyhoeddodd AGGCC *Adolygiad a Gwerthusiad o Berfformiad Blynyddol ar gyfer 2012-13* ar gyfer yr adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn Sir Fynwy. Mae'r adroddiad gwerthuso yn nodi'r meysydd allweddol lle y gwnaed cynnydd yn ogystal â meysydd i'w gwella ymhellach. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan AGGCC. Daw'r paragraffau canlynol o'r adroddiad.

19 'Mae Cyngor Sir Fynwy wedi amlinellu gweledigaeth strategol a blaenoriaethau ar gyfer gwasanaethau gofal cymdeithasol, ac yn parhau i ddatblygu ei raglen newid uchelgeisiol ar draws gofal cymdeithasol i oedolion a phlant er mwyn cyflawni'r weledigaeth hon. Y nod yw llunio gwasanaethau er mwyn canolbwyntio ar waith ataliol, ymyriad cynnar a chefnogi pobl i barhau'n annibynnol. Bwriad ei strategaeth yw defnyddio mentrau cymdeithasol, partneriaid a chymunedau i gyflwyno gwasanaethau.

20 Mae'r Cyngor wedi dangos ymrwymiad i gydweithio ac integreiddio pellach gydag awdurdodau agos a phartneriaid ledled Gwent er mwyn datblygu a chomisiynu gwasanaethau. Mae strategaethau wedi'u datblygu i gyflwyno gwasanaethau integredig i oedolion ag anableddau dysgu ac i bobl ag anghenion iechyd meddwl.

21 O fewn gwasanaethau i oedolion, mae timau integredig iechyd a gofal cymdeithasol yn cyflwyno gwasanaethau ail-alluogi trwy fodel Eiddilwch Gwent. Awgryma data perfformiad fod hyn yn cael effaith gadarnhaol, gan fod mwy o bobl yn cael eu cefnogi i barhau'n

annibynnol. Mae'r Cyngor wedi ailgynllunio'r ffordd y mae'n ymateb i gysylltiadau cychwynnol fel bod pobl sy'n cysylltu â gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn siarad â staff cymwys a all hwyluso atebion trwy gynghori, cyfeirio neu atgyfeirio i gael asesiad pellach.

22 O fewn gwasanaethau i blant, mae'r perfformiad o'i gymharu â dangosyddion cenedlaethol wedi bod yn sefydlog neu wedi gwella o fewn nifer o feysydd; serch hynny, mae'r Cyngor wedi cael anhawster wrth gynnal perfformiad o fewn rhai meysydd. Cynyddodd nifer y plant sy'n derbyn gofal yn 2011/12 ac mae wedi parhau ar y lefel uwch hon eleni sydd wedi gosod pwysau ar rai adnoddau.

23 Gwnaed gwaith da yn ystod 2012-13 i ailstrwythuro gwasanaethau i blant ac ailgynllunio prosesau i symleiddio gwasanaethau a'u gwneud yn fwy effeithlon. Mae hyn yn cynnwys: cyflwyno Fframwaith Asesu Teuluoedd ar y Cyd trwy ganolfannau wedi'u lleoli o amgylch ysgolion uwchradd; datblygu un ffurflen asesu syml newydd; ac ailgynllunio'r polisi trosglwyddo i wella'r broses o wneud penderfyniadau, ac i sicrhau bod achosion yn cael eu datblygu'n briodol.

24 Mae'r Cyngor wedi cymryd camau i gryfhau ei drefniadau diogelu plant o fewn y gwasanaethau i blant, gan gymryd cyfrifoldeb dros yr holl faterion diogelu sy'n ymwneud ag addysg. Mae hyn wedi bod yn elfen bwysig ar ymateb y Cyngor i bryderon y tynnwyd sylw atynt yn adolygiad Estyn o wasanaethau addysg Cyngor Sir Fynwy ym mis Tachwedd 2012.

25 Mae AGGCC wedi nodi'r risgiau posibl canlynol:

- gallu i weithredu newid ar gyfradd sy'n cyd-fynd â'r galw cynyddol am wasanaethau i oedolion a phlant;
- gallu i ddatblygu a gweithredu'r agenda moderneiddio wrth barhau i ymateb i'r galw gweithredol parhaus. a
- gallu i ddatblygu fframwaith sicrwydd ansawdd a rheoli perfformiad a fydd yn galluogi'r cyngor i'w fodloni ei hun bod y strwythurau gwasanaeth a'r ffyrdd newydd o weithio yn cyflawni'r canlyniadau dymunol.

26 Mae AGGCC wedi nodi'r meysydd canlynol o arfer da:

- Mae gan y Cyngor weledigaeth glir ynglŷn â siâp y gwasanaethau yn y dyfodol er mwyn bodloni'r galw ac mae'n rhagweithiol wrth ddatblygu'r agenda moderneiddio er mwyn cyflawni'i weledigaeth.
- O fewn gwasanaethau i oedolion, mae model gofal cwbl integredig yn cefnogi'r broses o ddarparu gwasanaethau ail-alluogi a'r model Eiddilwch Gwent. Mae nifer y bobl sy'n cael eu cefnogi yn y gymuned yn sefydlogi sy'n arwydd bod mwy o bobl yn cael eu galluogi i barhau'n annibynnol.
- Mae pobl yn ei chael hi'n haws cysylltu â gwasanaethau i oedolion a derbyn gwasanaethau amserol ac ymatebol.'

27 Dengys ein dadansoddiad o'r Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus fod perfformiad yn gymysg.

28 Gwellodd perfformiad mewn perthynas â dau fesur: canran yr oedolion a atgyfeiriwyd lle caiff y risg ei rheoli (er bod y Cyngor yn y 21ain safle yng Nghymru o hyd); a chanran y gofalwyr y cynigiwyd asesiad penodol iddynt (er, unwaith eto, fod y Cyngor yn y 19eg safle yng Nghymru o hyd). Gostyngodd canran yr oedolion a gafodd gymorth yn y gymuned. Gwaethygodd perfformiad mewn perthynas â dau fesur; canran yr adolygiadau o gynlluniau gofal a gwblhawyd yn brydlon; a chyfradd y bobl hŷn a gafodd gymorth mewn cartrefi gofal (er mai'r Cyngor sy'n dal i berfformio orau yng Nghymru mewn perthynas â'r dangosydd hwn).

29 Gwaethygodd tua hanner y mesurau perfformiad allweddol ar gyfer gwasanaethau i blant yn ystod 2012-13 a gwellodd eu hanner, gyda'r rhan fwyaf bellach yn perfformio'n waeth na chyfartaledd Cymru. Roedd pedwar mesur lle na ellid cymharu perfformiad yn uniongyrchol dros amser na rhwng cynghorau.

30 Gwellodd perfformiad mewn perthynas â phedwar dangosydd. Roedd tri ohonynt yn ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys nifer y plant sy'n cael tri lleoliad neu fwy o fewn blwyddyn (gwellodd safle'r Cyngor hefyd o 11eg yng Nghymru i'r cyntaf), neu'n newid ysgol (gwellodd safle'r Cyngor hefyd o 12fed i 6ed) a chymwysterau allanol yn 16 oed (unwaith eto, gwellodd ei safle o 19eg i 7fed). Gwellodd canran y gofalwyr ifanc hefyd a gwellodd safle'r Cyngor o 22ain i 19eg, sydd dal yn waeth na chyfartaledd Cymru.

31 Gwaethygodd perfformiad mewn perthynas â phedwar mesur: canran y plant a welwyd gan weithiwr cymdeithasol yn ystod eu hasesiad cychwynnol (lle gwaethygodd safle'r Cyngor o'r cyntaf yng Nghymru i'r 6ed); y ganran a welwyd ar eu pen eu hunain gan weithiwr cymdeithasol (lle gwaethygodd y safle o 16eg i 22ain); canran yr ymweliadau statudol yn unol â'r rheoliadau (gwaethygodd y safle o 11eg i 22ain); a'r adolygiadau plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser (arhosodd y safle yn ddigyfnewid, sef 21ain yng Nghymru).

**Cymysg fu perfformiad y Cyngor mewn perthynas â busnes a thwristiaeth**

32 Nododd y Cyngor amrywiaeth o gamau gweithredu allweddol i'w helpu i gyflawni'r Amcan Gwella Rydym am wella ffyniant ein sir a'i hatyniad i fusnes. Eleni byddwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed gennym wrth helpu busnesau sy'n bodoli eisoes a busnesau newydd a hefyd yn troi ein ffocws at sicrhau'r elw ariannol a chymdeithasol gorau posibl ar fuddsoddi yn ein heconomi dwristiaeth. Ymhlith y camau gweithredu roedd cynyddu cyfleoedd gwaith a hyfforddiant drwy'r cwmni budd cymunedol CMC2 a throi twristiaeth dymhorol yn fusnes gydol blwyddyn.

33 Nododd y Cyngor saith mesur perfformiad penodol y byddai'n eu defnyddio i asesu p'un a yw wedi cyflawni ei amcan. Nododd gwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad ei hun fod ei berfformiad yn dda ar gyfer yr Amcan Gwella hwn, gyda chryfderau pwysig a rhai meysydd i'w gwella.

34 Dengys ein gwerthusiad na chyflwynodd y Cyngor adroddiad mewn perthynas ag un mesur, ei fod wedi cyflawni ei dargedau mewn perthynas â dau fesur a'i fod wedi methu â chyflawni ei dargedau mewn perthynas â phedwar mesur. Ni chyflwynodd y Cyngor adroddiad ar ganran y gweithlu a gyflogir yn y sector twristiaeth. Cyflawnwyd y targedau o ran nifer y swyddi newydd a grëwyd a gefnogwyd gan fenter Sir Fynwy a'i phartneriaid, a nifer y bobl a oedd yn hawlio lwfans ceisio gwaith. Ni chyflawnodd y Cyngor ei dargedau o ran nifer y busnesau newydd a gefnogwyd gan fenter Sir Fynwy a'i phartneriaid, cyfanswm nifer y twristiaid a'r incwm a gynhyrchwyd gan dwristiaeth, nac enillion wythnosol cyfartalog trigolion Sir Fynwy.

**Roedd perfformiad y Cyngor o ran Adfywio'r Ardal yn gymysg ac ni chyflawnodd llawer o'r mesurau y targedau ond gwnaed gwelliannau sylweddol o ran cartrefi fforddiadwy**

35 Nododd y Cyngor amrywiaeth o gamau gweithredu allweddol i'w helpu i gyflawni'r amcan: 'Rydym am fynd ati i adfywio a datblygu'r ardal mewn ffordd gydgysylltiedig a chynhwysfawr. Gan barhau o'r llynedd, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol naill ai i adolygu cynlluniau adfywio sy'n bodoli eisoes neu i ddatblygu cynlluniau adfywio ardal cyfannol newydd ar gyfer ein trefi allweddol, sef y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy. Byddwn hefyd yn gwneud hyn i ddatblygu cymunedau llai gan ddechrau yn Llanelly Hill ac Overmonnow. Ymhlith y camau gweithredu roedd datblygu'r dull 'Whole Place', a rhoi prosiectau adfywio ar waith yn Severnside a'r Fenni.

36 Nododd y Cyngor wyth mesur perfformiad penodol y byddai'n eu defnyddio i asesu p'un a yw wedi cyflawni ei amcan. Nododd gwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad ei hun fod ei berfformiad yn dda ar gyfer yr Amcan Gwella hwn, gyda chryfderau pwysig a rhai meysydd i'w gwella.

37 Dengys ein gwerthusiad na chyflwynodd y Cyngor adroddiad mewn perthynas â dau fesur, ei fod wedi cyflawni ei dargedau mewn perthynas â dau fesur a'i fod wedi methu â chyflawni ei dargedau mewn perthynas â phedwar mesur. Ni chyflwynodd y Cyngor adroddiad ar nifer y micro-fentrau yn y sir na nifer y mentrau gweithredol gan nad oedd y wybodaeth hon ar gael o'r ffynhonnell ddata genedlaethol (NOMIS). Cyflawnodd ei dargedau o ran nifer y bobl o oedran gweithio â chymhwyster sy'n cyfateb i NVQ4 neu'n uwch (gan gyflawni 38.5 y cant o gymharu â'r targed o 36.7 y cant), a nifer yr unedau tai ychwanegol a ddarparwyd (gan gyflawni 101 o unedau o gymharu â tharged o 20). Ond canlyniad amodol oedd ar gyfer y dangosydd hwn ledled Cymru. Methodd y Cyngor â chyflawni ei dargedau o ran nifer a chanran trigolion Sir Fynwy sy'n gweithio yn y sir, nifer y cartrefi fforddiadwy a adeiladwyd a nifer y lleoliadau seiliedig ar waith a gafwyd gyda chyflogwyr lleol. Daethom ar draws wallau a oedd yn gysylltiedig â'r dangosydd hwn yn ein hadolygiad o ansawdd data yn ystod haf 2013.

**Caiff perfformiad o ran Addysg ei fonitro gan Estyn yn dilyn y diffygion a nodwyd yn ei arolygiad ym mis Chwefror 2013**

38 Nododd y Cyngor amrywiaeth o gamau gweithredu allweddol i ategu'r amcan: Rydym am wella'r ffordd rydym yn darparu addysg er mwyn sicrhau'r cyfleoedd dysgu gorau i'n plant a'n pobl ifanc, ond hefyd i'r gymuned ehangach. Yn fwy penodol eleni, byddwn yn dechrau ar y broses o wella safleoedd ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn addas i ddarparu addysg ar gyfer yr 21ain ganrif, byddwn yn rhoi'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar waith fel dull gweithredu ar y cyd rhwng awdurdodau er mwyn datblygu gwell arferion addysgu a dysgu a byddwn yn parhau â'n rhaglen o adeiladu seilwaith TGCh modern o fewn ein hysgolion. Byddwn hefyd yn parhau i wella ein cymorth i blant a phobl ifanc sy'n cael anawsterau o fewn y system addysg. Ymhlith y camau gweithredu roedd defnyddio arian Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif i wella ysgolion cyfun a chynradd, gweithio gyda'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (SRS) i wella gallu TGCh a gweithgareddau pwysig eraill.

39 Nododd y Cyngor 12 o fesurau perfformiad penodol y byddai'n eu defnyddio i asesu p'un a yw wedi cyflawni ei amcan. Nododd gwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad ei hun fod ei berfformiad yn ddigonol ar gyfer yr Amcan Gwella hwn a bod mwy o gryfderau na gwendidau o drwch blewyn.

40 Arolygodd Estyn wasanaethau addysg y Cyngor ym mis Tachwedd 2012 a barnwyd eu bod yn anfoddhaol.  Barnwyd hefyd fod eu gallu i wella yn anfoddhaol. Argymhellodd yr adroddiad y dylai'r gwasanaeth ddod yn destun mesurau arbennig a sefydlwyd Bwrdd Adfer Gweinidogol.

41 Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Adfer Gweinidogol i ymdrin â'r diffygion a nodwyd yn yr arolygiad. Bydd Estyn yn parhau i fonitro hynt yr awdurdod yn erbyn ei gynllun gweithredu yn dilyn arolygiad drwy gydol y flwyddyn.

42 Yn ystod mis Chwefror 2014, cynhaliod Estyn ei ymweliad monitro cyntaf ers yr arolygiad, ac yn ddiweddar, mae wedi cyflwyno llythyr i'r Cyngor sy'n nodi'r cynnydd a wnaed gan yr awdurdod yn erbyn yr argymhelliad Diogelu sy'n codi o arolygiad 2012, yn ystyried perfformiad presennol yr awdurdod ac yn nodi unrhyw feysydd ychwanegol i wella arnynt. Trefnwyd rhagor o ymweliadau monitro i werthuso cynnydd yn erbyn y pum argymhelliad sy'n weddill. Bydd Estyn hefyd yn adolygu'r cynnydd cyffredinol a wnaed yn erbyn yr holl argymhellion o'r arolygiad blaenorol a'r perfformiad presennol yn gyffredinol.

43 Nododd Esyn yn ei lythyr at y Cyngor bod 'yr awdurdod lleol wedi gwneud cynnydd cychwynnol da o ran mynd i'r afael â'r diffygion o ran diogelu a nodwyd ar lefel gwasanaeth a lefel ymarferydd. Fodd bynnag, nid aed i'r afael yn ddigonol â'r diffygion mwyaf heriol ac arwyddocaol a nodwyd yn y broses o reoli materion diogelu. Nid oes gan yr awdurdod lleol systemau a phrosesau gwybodaeth reoli digon effeithiol i'w alluogi i gael gwybodaeth reoli briodol a gwerthusol ynghylch diogelu. Ni ellir nodi fel mater o drefn pa mor dda y mae'r camau a gymerwyd yn effeithio ar y broses o ddiogelu'r holl blant a phobl ifanc yn Sir Fynwy na blaenoriaethu camau ar gyfer gwella'n ddigon da'.

44 Cyflwynir barn gyffredinol newydd Estyn ar ddiwedd y cyfnod monitro y disgwylir iddo ddod i ben yn 2015.

**Roedd perfformiad y Cyngor mewn perthynas â gwastraff yn gymysg gan fod gwelliannau o ran y mesurau gwastraff ac ailgylchu, ond na lwyddodd y Cyngor i gyflawni ei dargedau**

45 Nododd y Cyngor amrywiaeth o gamau gweithredu allweddol i ategu'r Amcan Gwella Rydym am weithio gyda'n partneriaid a'r gymuned i gynyddu faint o wastraff a gaiff ei reoli mewn ffordd gynaliadwy a gweithio tuag at ddewis amgen cynaliadwy hirdymor i safleoedd tirlenwi. Fel rhan o hyn, mae'r Cyngor yn bwriadu datblygu'r Prosiect Gwyrdd[1] er mwyn cynnig ffordd hirdymor a chynaliadwy o drin gwastraff gweddilliol.

46 Nododd y Cyngor naw mesur perfformiad penodol y byddai'n eu defnyddio i asesu p'un a yw wedi cyflawni ei amcan. Nododd gwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad ei hun fod perfformiad yn dda ar gyfer yr Amcan Gwella hwn a bod cryfderau pwysig a rhai meysydd i'w gwella.

47 Dengys ein gwerthusiad na chyflwynodd y Cyngor adroddiad mewn perthynas â thri mesur, ei fod wedi cyflawni ei dargedau mewn perthynas â dau fesur a'i fod wedi methu â chyflawni ei dargedau mewn perthynas â phedwar mesur. Ni chyflwynodd y Cyngor adroddiad o ran boddhad ailgylchu (sy'n seiliedig ar arolwg a gynhelir bob dwy flynedd) a chanran y cartrefi sy'n defnyddio gwasanaethau ailgylchu sych a gwasanaethau ailgylchu bwyd gwastraff wythnosol. Codwyd y mater hwn yn ein hadolygiad o ansawdd data yn ystod haf 2013.

48 Cyflawnodd y Cyngor ei dargedau o ran nifer y cartrefi lle y caiff gwastraff domestig ei gasglu a'r cilogramau o wastraff a gesglir fesul unigolyn. Methodd y Cyngor â chyflawni ei dargedau o ran y tunelli o wastraff bioddiraddiadwy a gaiff ei anfon i safleoedd tirlenwi a safonau glendid priffyrdd a fabwysiadwyd. Methodd y Cyngor hefyd â chyflawni ei darged o ran canran y gwastraff dinesig a gaiff ei ailgylchu neu ei gompostio ond roedd yn dal yn well na chyfartaledd Cymru, llwyddodd i gyflawni targed Llywodraeth Cymru ac enillodd statws gwyrdd o fewn graddfeydd ailgylchu Llywodraeth Cymru. Yn olaf, methodd y Cyngor â chyflawni ei darged o ran canran y

1 Mae Prosiect Gwyrdd yn bartneriaeth rhwng pum cyngor (Bro Morgannwg, Caerdydd, Caerffili, Casnewydd a Sir Fynwy) sy'n anelu at ddod o hyd i'r ateb amgylcheddol, costeffeithiol ac ymarferol gorau ar gyfer gwastraff ar ôl ailgylchu a chompostio cymaint â phosibl yn ardal pob cyngor.

gwastraff dinesig a gaiff ei anfon i safleoedd tirlenwi. Roedd yn waeth na chyfartaledd Cymru er mai dim ond 46 y cant o'i lwfans tirlenwi a ddefnyddiodd y Cyngor yn 2011-12, sef yr isaf ond dau yng Nghymru. Gwellodd mesurau perfformiad allweddol eraill ar gyfer gwastraff, gan gynnwys clirio achosion o dipio sbwriel yn anghyfreithlon o fewn pum diwrnod, a chanran y priffyrdd y mae eu glendid o safon uchel a derbyniol.

**Gwnaeth y Cyngor gynnydd da o ran 'The Way We Work'**

49 Nododd y Cyngor amrywiaeth o gamau gweithredu allweddol i ategu'r Amcan Gwella: Rydym am foderneiddio'r ffordd y caiff y cyngor ei redeg er mwyn gwella ein ffordd o weithio. Yn fwy penodol, byddwn yn canolbwyntio ar newid diwylliant ein sefydliad er mwyn sicrhau ein bod yn gwrando ar yr hyn y mae cymunedau am ei gael ac yn dod yn fwy ymatebol ac arloesol wrth ddiwallu'r anghenion hynny. Ymhlith y camau gweithredu roedd rhoi trefniadau ar waith ar gyfer gweithio ystwyth, meddylfryd yn seiliedig ar systemau a dulliau gweithredu yn seiliedig ar systemau, intrapreneuriaeth, 'go find', 'come play' a datblygu dulliau gwrando effeithiol.

50 Nododd y Cyngor bedwar mesur perfformiad penodol y byddai'n eu defnyddio i asesu p'un a yw wedi cyflawni ei amcan, er y cyflwynwyd adroddiadau ar wyth mesur yn y pen draw. Ar y Cerdyn Sgorio ar gyfer yr Amcan Gwella hwn, nododd ein hadolygiad o ansawdd data yn ystod haf 2013 fod adroddiadau anghyson wedi'u cyflwyno ar rywfaint o'r data ac na roddwyd unrhyw esboniad am newidiadau i dargedau na'r lefelau perfformiad a gofnodwyd. Nododd gwerthusiad y Cyngor o'i berfformiad ei hun fod perfformiad yn dda ar gyfer yr Amcan Gwella hwn a bod cryfderau pwysig a rhai meysydd i'w gwella.

51 Dengys ein gwerthusiad na phennodd y Cyngor dargedau ar gyfer tri mesur, ei fod wedi cyflawni ei dargedau mewn perthynas â thri mesur a'i fod wedi methu â chyflawni ei dargedau mewn perthynas ag un mesur. Ni phennodd y Cyngor dargedau ar gyfer y mesurau o ran: yr arbedion a wnaed o ganlyniad i'r dulliau systemau cyfan ac arloesedd cymwysedig (cyflawnodd £1.77 miliwn - cyflwynwyd adroddiadau anghyson ar hyn hefyd, fel y nodwyd yn ein hadolygiad o ansawdd data yn ystod haf 2013); canran y ceisiadau cynllunio a gymeradwywyd (cyflawnodd 93.7 y cant); neu nifer y diwrnodau i brosesu cais cynllunio (cyflawnodd 104 o ddiwrnodau). Cyflawnodd y Cyngor ei dargedau o ran nifer y bobl sy'n ymgysylltu â'r Cyngor drwy gyfryngau cymdeithasol (gan gyflawni 6,949 o gymharu â tharged o 3,947); nifer y syniadau gan aelodau o staff a ddefnyddir wrth lunio'r gyllideb (gan gyflawni 33 o gymharu â tharged o 20, er y cyflwynwyd adroddiadau anghyson ar hyn fel y nodwyd yn ein hadolygiad o ansawdd data); a nifer y bobl sy'n ymwneud â rhaglen 'Your County, Your Way' (gan gyflawni 480 o gymharu â tharged o 400). Ni chyflawnodd y Cyngor ei darged o ran nifer y bobl a gwblhaodd y rhaglen intrapreneuriaeth, gan gyflawni 54 o gymharu â tharged o 60. Unwaith eto, cyflwynwyd adroddiadau anghyson ar hyn fel y nodwyd yn ein hadolygiad o ansawdd data.

## Cymysg fu hynt y Cyngor wrth gyflawni gwelliant ar fesurau y gellir eu cymharu â chynghorau eraill yng Nghymru

52 Roedd y Cyngor yn rhy araf i brosesu ceisiadau am fudd-dal tai. Gostyngodd ei lwyth achosion un y cant (o gymharu â gostyngiad cyfartalog o dri y cant ledled Cymru) ac mae'r amser cyfartalog a gymerir i brosesu ceisiadau yn ddigyfnewid yn 2011-12 a 2012-13, sef 34 diwrnod. Mae hyn yn sylweddol waeth na chyfartaledd Cymru, sef 20 diwrnod. Arhosodd yr amser a gymerir i brosesu newidiadau mewn amgylchiadau yn ddigyfnewid, sef 12 diwrnod, ond mae hyn ddwywaith cyfartaledd Cymru, sef chwe diwrnod. Roedd lefel cywirdeb wedi gwella i 88 y cant wrth brosesu ceisiadau yn 2012-13, a oedd hefyd yn waeth na chyfartaledd Cymru, sef 94 y cant.

53 Cymysg fu perfformiad o ran tai. Gwellodd cyflymder y Cyngor wrth brosesu grantiau cyfleusterau i bobl anabl, roedd yn well na chyfartaledd Cymru ac roedd yn y chweched safle yng Nghymru. Ond gwaethygodd perfformiad o ran atal digartrefedd, roedd yn llawer gwaeth na chyfartaledd Cymru ac roedd yn yr 20fed safle yng Nghymru.

54 Roedd perfformiad o ran trafnidiaeth a phriffyrdd yn gymysg. Gwellodd cyflwr ffyrdd, roedd yn well na chyfartaledd Cymru ac roedd yn y pumed safle yng Nghymru. Ond roedd gan lai o bobl hŷn gardiau teithio rhatach ar gyfer gwasanaethau bws, roedd yn waeth na chyfartaledd Cymru ac roedd y Cyngor yn y 19eg safle yng Nghymru.

55 Roedd perfformiad o ran hamdden a diwylliant yn gymysg. Roedd nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden yn is na chyfartaledd Cymru ac roedd yn y 18fed safle yng Nghymru ond roedd ymweliadau â llyfrgelloedd yn uwch na chyfartaledd Cymru ac yn y safle gorau ond un yng Nghymru. Cafodd yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus lai o gwynion am y Cyngor na'r flwyddyn flaenorol ond roedd ymatebion i geisiadau am wybodaeth yn dal yn rhy araf.

56 Gwellodd darpariaeth Gymraeg y Cyngor ond mae angen ei gwella ymhellach. Mae wedi cymryd camau pellach i gynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg ar y wefan ac wedi datblygu canllawiau mewnol ar gyhoeddi cynnwys Cymraeg a Saesneg. Mae angen gwneud rhagor o waith i gyflwyno adroddiadau ar sgiliau Cymraeg y gweithlu a bydd rhoi'r Strategaeth Sgiliau Iaith ar waith yn flaenoriaeth ar gyfer y cyfnod nesaf. Mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio asiantaeth allanol i gynnal arolwg dros y ffôn er mwyn profi ei fod yn cydymffurfio â'r Cynllun Iaith. Bydd angen i'r Cyngor ddadansoddi canlyniadau'r asesiad a sicrhau ei fod yn gweithredu ar unrhyw ganfyddiadau ar gyfer gwella. Llwyddodd y Cyngor i reoli ei gyllideb gyffredinol ac er ei fod yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol gyda llai o arian, nid yw targedau arbedion cymeradwy bob amser yn cael eu gwireddu ac mae rhai gwasanaethau lleol yn dod yn gynyddol anghynaliadwy.

57 Mae cynghorau o dan bwysau cynyddol i leihau costau ond mae dyletswydd arnynt o hyd i roi trefniadau ar waith i sicrhau gwelliant parhaus. Mae graddau'r lleihad mewn costau sydd eu hangen yn golygu y bydd yn rhaid i gynghorau edrych y tu hwnt i arbedion byrdymor a meddwl mewn ffordd fwy radical am sut i leihau costau i'r busnes a sut i gynnal hyn yn y tymor hwy tra'n parhau i wella gwasanaethau. Er mwyn lleihau gwariant yn effeithiol, bydd angen i adrannau ystyried materion mewn ffordd strategol er mwyn sicrhau na chaiff ansawdd gwasanaethau ei roi yn y fantol mewn meysydd cyflawni â blaenoriaeth. Dylai cynghorau flaenoriaethu'r gwasanaethau pwysicaf yn glir, yn seiliedig ar asesiad cywir, realistig o gostau, buddiannau a risgiau'r opsiynau.

58 Yn ystod 2012-13, gwnaethom adolygu i ba raddau roedd y Cyngor yn ymdopi â llai o adnoddau. Daethom i'r casgliad fod y Cyngor yn llwyddo i reoli ei gyllideb gyffredinol ac er ei fod yn parhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol gyda llai o arian, nad yw targedau arbedion cymeradwy bob amser yn cael eu gwireddu a bod rhai gwasanaethau lleol yn dod yn gynyddol anghynaliadwy.

59 Yn gyffredinol, mae gwariant y Cyngor ar Iechyd yr Amgylchedd, Tai a Rheoli Gwastraff yn lleihau ac, ar y cyfan, mae'r perfformiad yn sefydlog. Nid yw cynaliadwyedd hirdymor y gwasanaethau hyn yn eglur ac mae rhai gwasanaethau yn rheoli risgiau cynyddol. Gwnaethom edrych ar y tri maes hyn yn benodol er mwyn deall i ba raddau y mae'r gwasanaethau hyn yn cynllunio ac yn sicrhau arbedion. Mae cyllidebau gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd a Rheoli Gwastraff wedi lleihau tra bod gwariant ar Wasanaethau Tai wedi cynyddu ychydig yn ystod y blynyddoedd diwethaf.  Mae gwasanaethau Iechyd yr Amgylchedd yn ymdopi â chyllidebau llai ac mae eu perfformiad yn gwella ar y cyfan, ond nid yw'n glir p'un a yw'r gwasanaeth yn gynaliadwy yn y tymor canolig i'r hirdymor. Erys perfformiad gwasanaethau tai yn gymysg ac mae'r prinder adnoddau o fewn y gwasanaeth a'r galw cynyddol amdano yn awgrymu bod risgiau cynyddol ym maes tai yn Sir Fynwy. Mae gwasanaethau gwastraff yn ymdopi'n dda gyda llai o adnoddau ac mae eu perfformiad yn gwella ar y cyfan er y gallai hyn fod yn anodd i'w gynnal.

60 Ar adeg lle ceir llai o adnoddau a mwy o bwysau ar gyllidebau, mae'n bwysig i gynghorau ymgysylltu â phobl leol am eu gwasanaethau a deall sut mae newidiadau i'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu, o ganlyniad i benderfyniadau cyllidebol, yn effeithio ar y rheini sy'n derbyn y gwasanaethau hynny. Cafwyd gennym fod trigolion yn Sir Fynwy yn defnyddio amrywiaeth eang o wasanaethau'r Cyngor ac, ar y cyfan, roedd y rhan fwyaf o'r trigolion y gwnaethom siarad â hwy yn fodlon ag ansawdd y rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor er yr ystyrir bod nifer fach ohonynt yn wael. Roedd y trigolion y gwnaethom siarad â hwy o'r farn nad oedd ansawdd y rhan fwyaf o wasanaethau'r Cyngor wedi gwella nac wedi gwaethygu yn ystod y flwyddyn ddiwethaf a'i fod wedi parhau'n gymharol sefydlog. Roedd ymwybyddiaeth gymysg ymhlith y trigolion y gwnaethom siarad â hwy o ran cynlluniau'r Cyngor ar gyfer y dyfodol a newidiadau o ran sut y caiff gwasanaethau eu darparu.

## Gwellodd trefniadau cynllunio gwelliant y Cyngor ar gyfer 2012-13 a chafwyd rhai enghreifftiau o waith craffu da, ond erys rhai gwendidau o ran y trefniadau ar gyfer dangosyddion lleol, cynnal asesiadau a chraffu ar berfformiad

### Rhoddwyd barn ddiamod ar gyfrifon y Cyngor ar gyfer 2012-13 ac roedd y datganiadau ariannol o safon dda

61 Rhoddodd yr archwilydd a benodwyd gan yr Archwilydd Cyffredinol farn ddiamod ar gyfrifon y Cyngor a baratowyd i safon dda. Ceir mwy o fanylion yn Atodiad 3.

### Gwellodd y Cyngor ei ddull o gynllunio gwelliant yn 2012-13 ond roedd angen mwy o gysondeb â chynlluniau strategol a chysylltiadau cliriach rhwng gweithgareddau a mesurau

62 Datblygodd y Cyngor Gynllun Integredig Sengl yn seiliedig ar Asesiad Anghenion Unedig. Ystyriwyd partneriaethau a threfniadau cydweithredu fel rhan o broses cynllunio gwelliant y Cyngor, ond ni ddiffiniwyd buddiannau a chanlyniadau'r partneriaethau a'r trefniadau cydweithredu hyn yn glir. Roedd rhai bylchau o ran gwybodaeth sylfaenol a'r mesurau a ddefnyddiwyd gan y Cyngor i werthuso a monitro cynnydd a chyflwyno adroddiadau arno.

63 Nid oedd y broses o gynllunio gwelliant yn gyson eto â'r holl weithgareddau cynllunio strategol eraill ac nid oedd rhai o'r prosesau datblygu ar draws y gwahanol gynlluniau yn gydnaws â'i gilydd. Roedd hyn yn atal y Cyngor rhag llunio cysylltiadau ar draws pob un o'i gynlluniau strategol.

64 Drwy'r dull 'Whole Place', gwellodd y Cyngor y ffordd yr oedd partneriaid a chymunedau yn cael eu cynnwys wrth gynllunio ar gyfer gwelliant a phennu blaenoriaethau.

65 Nid oedd bob amser yn eglur beth roedd y Cyngor yn awyddus i'w gyflawni drwy'r gweithgareddau a oedd yn gysylltiedig â phob amcan gwella, sut roedd gweithgareddau a mesurau perfformiad yn gysylltiedig na beth oedd y terfynau amser a'r cerrig milltir ar gyfer cyflawni. Nid oedd y Cyngor bob amser yn datblygu amrywiaeth eang na chynhwysfawr o fesurau i werthuso llwyddiant ei weithgareddau ar gyfer pob amcan gwella.

### Dechreuodd trefniadau'r Cyngor ar gyfer gwerthuso ei berfformiad yn ystod 2012-13 wella ond roedd rhai gwendidau yn y trefniadau ar gyfer dangosyddion lleol

66 Roedd tîm perfformiad canolog y Cyngor yn helpu meysydd gwasanaeth i reoli eu perfformiad. Roedd rhai gwasanaethau yn defnyddio gwybodaeth am berfformiad i wella eu gwasanaethau, er enghraifft, gwasanaethau cymdeithasol.

67 Roedd y Cyngor yn datblygu fframwaith rheoli perfformiad newydd gyda gwell trefniadau ar gyfer gwerthuso a sgorio perfformiad yn erbyn amcanion gwella, cyfres o ddangosyddion iechyd corfforaethol a storfa data perfformiad (Ffynnon) newydd a system newydd ar gyfer cyflwyno adroddiadau. Roedd hefyd yn datblygu fframwaith hunanwerthuso yn seiliedig ar 10 cwestiwn â thystiolaeth ategol wedi'i llywio gan adroddiadau blynyddol y tri chyfarwyddwr. Bydd y fframwaith hefyd yn cynnwys adolygiadau o drefniadau llywodraethu a gallu ac adnoddau gwleidyddol a chorfforaethol. Byddwn yn asesu cadernid ac effeithiolrwydd y fframwaith hwn fel rhan o'n gwaith Asesu Gwelliant ar gyfer 2014-15.

68 Yn ystod haf 2013, gwnaethom edrych ar sampl o fesurau perfformiad a systemau data er mwyn asesu p'un a oedd data yn briodol, yn gadarn ac yn gywir. Gwnaethom archwilio'r systemau data ar gyfer dau Ddangosydd Strategol Cenedlaethol (DSC) a phedwar dangosydd lleol. Roedd trefniadau corfforaethol ar gyfer cydgysylltu perfformiad a chyflwyno adroddiadau arno yn datblygu ond nid oedd rhai systemau ar gyfer rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd data o fewn gwasanaethau yn gadarn. Roedd trefniadau'r Cyngor o ran defnyddio'r gwasanaeth Archwilio Mewnol i wirio DSCau wedi ymsefydlu'n gadarn ac yn gweithio'n dda.

69 Fodd bynnag, nid oedd dangosyddion lleol yn destun archwiliadau annibynnol. Nid oedd atebolrwydd o ran ansawdd gwybodaeth am berfformiad o fewn meysydd gwasanaeth bob amser yn glir. Daethom ar draws gwallau y gellid bod wedi'u hosgoi mewn gwybodaeth am ddangosyddion lleol y dylid bod wedi'u cywiro cyn cyflwyno adroddiad arnynt. Byddai eu harchwilio yn helpu i wella cywirdeb ac ansawdd y wybodaeth y cyflwynir adroddiadau arni gan wasanaethau ac yn ategu trefniadau mwy effeithiol ar gyfer rheoli perfformiad. Prin yr oedd aelodau yn cael eu cynnwys wrth graffu ar ddata perfformiad ac nid oedd aelodau yn rhan o'r broses o gytuno ar newidiadau i dargedau perfformiad. Mae angen i'r Cyngor wella'r trefniadau ar gyfer pennu gwybodaeth am berfformiad a thargedau perfformiad a gwneud newidiadau iddynt, er mwyn sicrhau nad yw perfformiad gwirioneddol yn erbyn targedau yn cael ei gamliwio a bod digon o gyfiawnhad dros wneud newidiadau yn ystod y flwyddyn.

70 O'r sampl o chwe dangosydd a archwiliwyd gennym, daethom ar draws gwallau mewn un ac ni ellid archwilio un arall am na chasglwyd unrhyw ddata. Yn ogystal, amlinellwyd nifer o broblemau cofnodi data yn llythyr blynyddol AGGCC i'r Cygor yn arbennig o ran adolygiadau amddiffyn plant a gynhaliwyd o fewn y terfynau amser ac oedolion sy'n cael gwasanaethau am fwy na 12 mis.

## Roedd rhai enghreifftiau o waith craffu da ond yn gyffredinol, roedd y trefniadau ar gyfer craffu ar berfformiad yn anghyson ac nid oedd asesiadau o berfformiad bob amser yn gytbwys

71 Roedd y trefniadau ar gyfer herio perfformiad a chraffu arno yn anghyson. Cydnabu aelodau'r Cabinet fod angen iddynt herio mwy a bod rhai gwendidau allweddol o ran y cydberthnasau presennol a'r ffyrdd presennol o weithio yn yr ystyr eu bod yn lleihau gallu'r aelodau i herio swyddogion yn effeithiol a sicrhau eu bod yn atebol mewn perthynas â chynnydd a pherfformiad. Nid oedd aelodau'r Cabinet bob amser yn glir ynghylch eu rôl ac, o ganlyniad, datblygwyd disgrifiadau rôl. Cydnabu aelodau'r Cabinet fod angen dull gweithredu mwy ffurfiol ar gyfer arfarnu perfformiad swyddogion. Roedd rhai enghreifftiau o werthusiadau da yn erbyn adolygiadau o weithgareddau o fewn Cynlluniau Gwella Gwasanaethau, er enghraifft, ym maes Tai. Roedd rhai enghreifftiau o graffu cadarn ond mae angen i bwyllgorau craffu gael sicrwydd bod y wybodaeth a gânt yn gywir ac y cyflwynir adroddiadau cyson arni.

72 Yn 2012-13, cymerodd aelodau a swyddogion ran yn ein Hastudiaeth Graffu. Rhoddodd hyn gyfleoedd iddynt ddysgu oddi wrth ei gilydd drwy arsylwi cyfarfodydd craffu cynghorau cyfagos a rhoi adborth i'w gilydd. Cynhaliodd y Cyngor hunanwerthusiad o'i swyddogaeth Graffu ac, yn dilyn hynny, cynhaliodd y cynghorau eraill adolygiad cymheiriaid ohoni. Wedyn lluniodd y Cyngor hunanwerthusiad craffu terfynol yn adlewyrchu ei brofiad a'r adborth gan gymheiriaid, a lluniodd gynllun gweithredu i ymdrin â'r materion y nodwyd yr oedd angen eu gwella. Cyflwynwyd canfyddiadau'r hunanwerthusiad, a'r cynllun gweithredu (wedi'i integreiddio i gynllun busnes y swyddogaeth graffu) i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ym mis Medi 2013. Mae'r cynllun gweithredu yn nodi'r holl faterion allweddol sy'n berthnasol i'r swyddogaeth Graffu a chyflwynwyd adroddiadau rheolaidd ar y materion hyn. Gwnaed cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth sydd angen ei wneud o hyd nac erbyn pryd, ac mae un swyddog yn gyfrifol am yr holl gamau gweithredu yn y cynllun, sy'n risg.

73 Nid oedd asesiadau o berfformiad yn erbyn Amcanion Gwella bob amser yn gytbwys. Roedd rhai o asesiadau'r Cyngor yn rhy gadarnhaol, er enghraifft, ar yr Amcan Gwella ar gyfer gwastraff, noda'r Cyngor berfformiad da yn gyffredinol, er gwaethaf y ffaith na wnaed unrhyw waith i fesur defnydd na boddhad ac o'r wyth mesur perfformiad, ni chasglwyd gwybodaeth am dri a methodd tri â chyflawni'r targedau. Gwaethygodd perfformiad gwirioneddol mewn perthynas â dau fesur a gwellodd mewn perthynas ag un.

74 Nid oedd y Cyngor yn cymharu ei hun yn systematig ag eraill â phroffil demograffig tebyg yn ogystal â chwilio am atebion byd-eang. Er ei fod wedi cymharu ei hun â chyfartaledd Cymru ar gyfer yr holl DSCau, ac mewn rhai achosion â chyfartaledd y DU, nid yw wedi cymharu ei berfformiad â chynghorau eraill â phroffil tebyg, nac wedi defnyddio ystod eang o wybodaeth gymharol.

## Cyflawnodd y Cyngor ei ddyletswyddau o ran adrodd ar welliant o dan y Mesur ar gyfer 2012-13; ond dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

75 Cyhoeddodd y Cyngor asesiad o'i berfformiad cyn 31 Hydref 2013 a oedd yn asesu perfformiad ac yn nodi sut roedd y Cyngor yn ceisio cyflawni ei ddyletswyddau o dan y mesur. Roedd yn cynnwys manylion am berfformiad a chymariaethau fel y'u mesurwyd gan y DSCau.

76 Roedd yr adroddiad hefyd yn cynnwys adran ar bartneriaethau a threfniadau cydweithredu, er mai dim ond dwy bartneriaeth allweddol y cyfeiriwyd atynt yn benodol. Gellid gwella'r adroddiad ar berfformiad drwy nodi buddiannau a chanlyniadau bwriadedig partneriaethau a threfniadau cydweithredu a'r terfynau amser a'r cerrig milltir ar eu cyfer.

77 Cafodd yr adroddiad sylw yn y wasg ac ar hafan gwefan y Cyngor. Roedd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac mewn fformatau eraill ar gais. Roedd crynodebau o'r adroddiad ar gael hefyd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys adran i ddinasyddion a oedd am gael rhagor o wybodaeth neu a oedd am gymryd rhan yn y dyfodol. Fodd bynnag, gellid sicrhau bod yr adroddiad yn haws i'w ddeall drwy ddefnyddio iaith syml a llai o jargon.

78 Yn ogystal â'r adroddiad blynyddol ar berfformiad, cyflwynwyd cardiau sgorio yn seiliedig ar ganlyniadau ddwywaith y flwyddyn i'r uwch dîm arwain, y Cabinet a'r Pwyllgor Craffu.

# Methodd y Cyngor â chyflawni rhai o'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant ar gyfer 2013-14 ac nid oedd yn sicr p'un a oedd y Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn 2013-14

## Yn 2013-14, methodd y Cyngor â chyflawni rhai o'i ddyletswyddau cynllunio gwelliant o dan y Mesur a dylai sicrhau ei fod yn cydymffurfio mwy â chanllawiau Llywodraeth Cymru

79 Yn ein Llythyr Asesiad Gwella dyddiedig 24ain Medi 2013, nodwyd gennym fod 'Blaengynllun Cam 1 Cynllun Gwella 2013-16' (y Cynllun) y Cyngor yn bodloni'r rhan fwyaf o ofynion y Mesur ond nis cyhoeddwyd tan 10 Gorffennaf 2013, nad oedd o fewn amserlen resymol. Roedd y Cyngor wedi bwriadu cyhoeddi'r adroddiad erbyn diwedd mis Mehefin 2013 ond bu'n rhaid iddo wneud newidiadau yn dilyn sylwadau yng nghyfarfod y Cyngor ar 27 Mehefin, gan ohirio'r dyddiad cyhoeddi. Mae angen i'r Cyngor ganiatáu digon o amser yn ei gynlluniau i roi cyfle i aelodau gyflwyno sylwadau llawn ar y Cynllun terfynol arfaethedig ac ymateb i unrhyw newidiadau y cytunir arnynt a fydd yn deillio o'r broses ddemocrataidd.

80 Nid oedd y Cynllun ar gael yn hawdd i ddinasyddion. Mae ar gael ar ffurf copi caled sy'n datgan ei fod hefyd ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg i'w lawrlwytho o wefan y Cyngor, ond cawsom anhawster yn dod o hyd iddo ar wefan y Cyngor, ac nid oedd fersiwn Cymraeg ar gael. Mae angen i'r Cyngor sicrhau bod y Cynllun yn haws dod o hyd iddo ar ei wefan a'i fod ar gael yn haws i grwpiau diddordeb penodol.

81 Ar gyfer 2013-14, diwygiodd y Cyngor ei amcanion gwella ac unodd ddwy o themâu'r amcanion gwella o'r flwyddyn flaenorol yn un. Ar gyfer y pum amcan gwella, mae'r Cynllun yn cynnwys esboniad o pam a sut y cawsant eu dewis a sut y maent yn adlewyrchu blaenoriaethau allweddol y Cyngor. Nodwyd y sail a'r rhesymeg dros ddewis pob amcan gwella yn glir gan gynnwys cyd-destun a gwybodaeth i randdeiliaid. Ar gyfer pob amcan gwella, cynhwyswyd yr adnoddau sydd ar gael, y gweithgareddau y bwriedir eu cynnal a sut y caiff effaith ei mesur (gan ddefnyddio fframwaith Atebolrwydd yn seiliedig ar Ganlyniadau[2].

82 Ar gyfer rhai amcanion gwella, er enghraifft, gwella cyrhaeddiad addysgol, roedd y dystiolaeth i farnu effaith yn glir, gyda chamau gweithredu a mesurau ar bresenoldeb a chyrhaeddiad. Fodd bynnag, ar gyfer amcanion gwella eraill, nid oedd y mesurau mor gadarn. Er enghraifft, o dan moderneiddio'r Cyngor, mae'r Cyngor yn nodi 'darpariaeth TGCh gosteffeithiol ac atgyfnerthu'r trefniadau ar gyfer rheoli absenoldeb' fel ei ffocws. O'r mesurau a nodwyd, nid oedd yn glir sut y câi'r amcan gwella ei gyflawni, na sut roedd y mesurau llwyddiant yn gysylltiedig â'r gweithgareddau a'r canlyniadau bwriadedig. Nid oedd unrhyw fesur ar gyfer absenoldeb oherwydd salwch er ein bod ar ddeall fod gwybodaeth sylfaenol wrthi'n cael ei llunio. Nid oedd y mesur 'nifer yr achlysuron lle y caiff gwybodaeth ei chyrchu o'r wefan' yn gadarn. Nid yw'n bosibl pennu p'un a oedd y wefan yn cyflawni arbedion effeithlonrwydd heb

2 Mae Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau yn canolbwyntio ar farnu effaith a chanlyniadau gwasanaethau a'r gwahaniaeth y gallant ei wneud i ansawdd bywyd pobl.

fesurau eraill y gellir cymharu â hwy, megis nifer y galwadau ffôn a'r cysylltiadau wyneb-yn-wyneb. Yn ogystal, nid oedd y Cyngor yn defnyddio amrywiaeth o fesurau i werthuso llwyddiant y wefan (megis pam y'i cyrchwyd, boddhad cwsmeriaid, a nifer y bobl a oedd yn dychwelyd at y wefan). Yn hytrach, roedd yn canolbwyntio ar nifer yr ymweliadau.

83 Cynhaliodd y Cyngor asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer pob un o'i bum amcan gwella a chyflwynwyd gwybodaeth gryno a oedd yn berthnasol i grwpiau gwarchodedig o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn y Cynllun. Er enghraifft, roedd amcanion gwella yn canolbwyntio ar sicrhau bod pobl ifanc yn cyflawni eu potensial o fewn y system addysg, ac ar ddiogelu pobl ifanc a'u teuluoedd, pobl hŷn a phobl ag anableddau. Cynhelir asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb ar gyfer y gweithgareddau a gynhwysir yn y Cynllun cyn eu rhoi ar waith.

## Nid oedd yn sicr p'un a oedd y Cyngor yn debygol o gydymffurfio â'r gofyniad i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus yn ystod 2013-14

84 Mae dull gweithredu'r Cyngor ar gyfer sicrhau gwasanaethau gwell, mwy effeithlon, sef 'Your County Your Way' yn cael ei roi ar waith ymhob rhan o'r Cyngor. Mae'n seiliedig ar bum dull gweithredu rhyng-gysylltiedig a gynlluniwyd i ddarparu gwasanaethau gwell, mwy effeithlon i ddinasyddion Sir Fynwy. Maent yn canolbwyntio ar arloesedd a chreadigrwydd, gweithio ystwyth, defnyddio arfer ardderchog, defnyddio dulliau ymgysylltu â chwsmeriaid a dinasyddion a defnyddio meddylfryd yn seiliedig ar systemau. Mae'r Cyngor wedi dweud wrthym fod gwelliannau sylweddol i wasanaethau eisoes wedi deillio o'r dulliau gweithredu hyn sydd wedi arwain at wasanaethau gwell ac arbedion cost.

**Nid yw trefniadau newydd y Cyngor ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn cynigion ar gyfer gwella a wnaed gan Swyddfa Archwilio Cymru ar waith eto a chymysg fu'r cynnydd a wnaed o ran ymdrin â'r cynigion**

85 Yn ein Llythyr Asesiad Gwella dyddiedig 24ain Medi 2013, nodwyd gennym fod y Cyngor yn ddiweddar wedi diwygio ei drefniadau ar gyfer monitro cynnydd yn erbyn ein canfyddiadau a'n cynigion ar gyfer gwella a chyflwyno adroddiadau arno. Mae Uwch Dîm Arwain y Cyngor[3] bellach yn gyfrifol am oruchwylio'r broses ac am sicrhau y cymerir camau i ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella. Mae'r trefniadau hyn yn ymsefydlu o hyd ac mae angen gwneud rhagor o waith i atgyfnerthu'r prosesau hyn. Er enghraifft, nid yw'r adroddiadau newydd y mae'r Cyngor wedi'u datblygu i olrhain cynnydd yn nodi llinellau atebolrwydd clir nac amserlenni ar gyfer cyflawni camau gweithredu a gwelliannau. Nid ydynt ychwaith yn darparu gwerthusiad o gynnydd wrth ymdrin â'r cynigion ar gyfer gwella. O ganlyniad, nid yw'n bosibl asesu p'un a wneir cynnydd nac i benderfynu a yw'r cynnydd ar y trywydd cywir. Heb linellau atebolrwydd clir, nid yw'n bosibl ychwaith i aelodau ac uwch swyddogion herio cynnydd yn effeithiol na sicrhau bod y rheini sy'n gyfrifol yn atebol.

3 Mae Uwch Dîm Arwain y Cyngor yn cynnwys y Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr Corfforaethol a Swyddogion sy'n gyfrifol am wasanaethau'r Cyngor.

86 Nid yw'r Cyngor wedi derbyn pob un o'r meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn ein gwaith diweddar. Mae ei hynt wrth ymdrin â'r rheini a dderbyniwyd ganddo yn gymysg. Noda'r Cyngor y gwnaed cynnydd mewn rhai meysydd, er enghraifft ei waith ar sicrhau bod gwasanaethau yn cydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg; atgyfnerthu ei broses ar gyfer cynnal asesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb; diweddaru a rhannu ei gynllun ariannol tymor canolig; datblygu cerdyn sgorio ar gyfer Gwasanaethau i Blant; a'r gwelliannau o ran hygyrchedd asesiad o berfformiad y Cyngor a'r cyhoeddusrwydd a gaiff. Mae gwaith mewn meysydd eraill, megis rhoi system rheoli perfformiad Ffynnon ar waith er mwyn ategu fframwaith rheoli perfformiad a rhaglenni'r Cyngor, yn mynd rhagddo.

**Mae'r Cyngor yn gwella'r ffordd y mae'n nodi ac yn monitro targedau arbedion**

87 Yn ein Llythyr Asesiad Gwella dyddiedig 24ain Medi 2013, nodwyd gennym fod y Cyngor yn cymryd camau i ymdrin â'r heriau ariannol anodd y mae'n eu hwynebu. Mae angen i'r Cyngor arbed £2 filiwn yn 2013-14, gan gynyddu i £10 miliwn yn 2014-15. Yn hanesyddol, mae'r Cyngor wedi cytuno ar ostyngiadau canrannol yn y gyllideb, ond ar gyfer 2013-14 mae wedi diwygio ei ffordd o fonitro'r broses o gyflawni targedau arbedion a nodwyd. Yn flaenorol, canolbwyntiodd y Cyngor ei waith monitro ar berfformiad ariannol yn erbyn y gyllideb adrannol gyffredinol, ond mae bellach wedi newid yr adroddiadau monitro chwarterol yn benodol i olrhain cynnydd yn erbyn targedau arbed unigol. Yn ystod 2013-14, mae'r Cyngor yn anelu at atgyfnerthu trefniadau ar gyfer monitro ei gynnydd wrth gyflawni'r arbedion gofynnol.

88 Er mwyn paratoi ar gyfer y cynllun ariannol tymor canolig, cyflwynodd yr Arweinydd araith i'r Cyngor cyfan ar gyflwr y sir, gan nodi'r cyd-destun y bydd y Cyngor yn gweithredu ynddo yn y dyfodol gan ragweld y caiff gwasanaethau anstatudol eu cwtogi 20 i 40 y cant.

**Penodwyd Bwrdd Adfer Addysg Gweinidogol yn dilyn barn Estyn bod gwasanaethau addysg y Cyngor i blant a phobl ifanc yn anfoddhaol**

89 Yn ein Llythyr Asesiad Gwella dyddiedig 24ain Medi 2013, nodwyd gennym fod y Cyngor yn gweithio'n agos gyda'r Bwrdd Adfer Gweinidogol i ymdrin â'r diffygion a nodwyd yn arolygiad Estyn ym mis Chwefror 2013. Bydd Estyn yn parhau i fonitro hynt yr awdurdod yn erbyn ei gynllun gweithredu yn dilyn arolygiad drwy gydol y flwyddyn.

**Mae adran gwasanaethau cymdeithasol y Cyngor wedi bod yn destun ailstrwythuro sylweddol o fewn gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf**

90 Mae'r trefniadau ailstrwythuro o fewn gwasanaethau i oedolion a gwasanaethau i blant wedi arwain at swyddi gwag ar adegau a diffyg gallu ac adnoddau i gyflawni eu holl amcanion. Mae newidiadau i brosesau asesu a dulliau o weithio o fewn gwasanaethau i blant ac, yn arbennig, o fewn y timau atgyfeirio ac asesu wedi arwain at brosesau mwy effeithiol ar gyfer gwneud penderfyniadau sydd wedi lleihau llwythi achosion i lefel fwy hydrin. Fodd bynnag, arweiniodd y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ac achosion llys at bwysau yn y maes hwn. Rhoddodd y Cyngor gymorth i'r tîm drwy ddarparu staff ychwanegol dros dro a thrwy recriwtio aelodau newydd o staff i'r

tîm. Noda pennaeth y gwasanaethau i blant gynnydd cyffredinol o ran lefelau staffio'r gwasanaethau i blant.

**Gellid gwella rhai o'r trefniadau ar gyfer cynllunio a rheoli prosiectau cydweithredol ac mae'r diffyg gwybodaeth am gostau a buddiannau ar gyfer llawer o'r prosiectau yn ei gwneud hi'n anodd asesu gwerth am arian**

91 Yn ein hadroddiad cydweithredu ym mis Chwefror 2014, cyflwynwyd canfyddiadau ein hadolygiad o drefniadau cydweithredu ar draws pedwar cyngor yng Ngwent: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy a Thorfaen. Nod yr adolygiadau oedd asesu p'un a oedd dulliau cydweithredu'r cynghorau yn gadarn ac yn cyflawni eu nodau.

92 Cafwyd bod y cynghorau a arolygwyd gennym ynghlwm wrth lawer o brosiectau cydweithredol a bod gan Sir Fynwy lai o brosiectau o'r fath na'r cynghorau eraill. Cafwyd gennym hefyd y gellid gwella'r broses o gynllunio a rheoli rhai prosiectau drwy nodi'n glir y rhesymeg dros gydweithredu, enwebu swyddog arweiniol a dynodi amserlenni clir ar gyfer y prosiect. Ac yn olaf, cafwyd gennym yn gyffredinol nad oedd gan y prosiectau cydweithredol o fewn y cynghorau a arolygwyd gennym wybodaeth am gostau a buddiannau cydweithredu, sydd wedi'i gwneud hi'n anodd asesu gwerth am arian.

**Roedd adolygiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu yn rhesymol gadarn**

93 Cyflwynwyd ein canfyddiadau ar adolygiad y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu ym mis Ebrill 2013 yn ein 'Adroddiad ar Gynnydd ar y Cyd' a oedd yn rhy hwyr i ymdrin yn llawn â'r holl ganfyddiadau ac argymhellion fel rhan o'r broses o baratoi Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2012-13. Rydym yn monitro cynnydd wrth roi'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt o fewn yr adroddiad hwn ar waith a byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor am y materion canlynol:

- p'un a yw Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2013-14 nid yn unig yn bodloni gofynion lefel uchel y cod cyfrifyddu a 'Delivering Good Governance in Local Government: Framework' a gyhoeddwyd gan CIPFA/SOLACE ym mis Mehefin 2007; a
- ph'un a gadwyd tystiolaeth ffurfiol sy'n dangos p'un a lwyddwyd i gyflawni'r mesurau sicrwydd penodol a nodwyd yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol yn foddhaol.

94 Byddwn hefyd yn asesu p'un a geir gwelliant o ran dealltwriaeth swyddogion ac aelodau o'r egwyddorion sy'n sail i'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'u rolau wrth nodi ac asesu effeithiolrwydd pob elfen o'r fframwaith llywodraethu fel y'u nodwyd yn y Cod Llywodraethu Corfforaethol. Byddai hyn yn arwain at fwy o her i gynnwys y Datganiad Llywodraethu Blynyddol gan yr Uwch Dîm Arwain/Aelodau er mwyn sicrhau perchenogaeth eang a'i fod yn ystyried materion ehangach sy'n effeithio ar y Cyngor. Byddai hefyd yn arwain at ehangu'r sylwebaeth yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol mewn perthynas â'r trefniadau llywodraethu ar gyfer cyfranogiad y Cyngor mewn prosiectau cydweithredol.

## Nid yw'n sicr p'un a yw'r Cyngor yn debygol o wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus ar gyfer 2014-15

95 Mae'r Cyngor wedi gwneud rhai gwelliannau i'w drefniadau yn 2012-13 a 2013-14, yn enwedig o ran y ffordd y mae'n cynnwys dinasyddion wrth gyflawni gwelliannau, yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill ac yn rheoli ei gyllid a'i arbedion. Ar hyn o bryd, mae'r Cyngor yn ailstrwythuro ei uwch reolwyr er mwyn creu gallu ac adnoddau sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Mae'r Cyngor wedi gwella amseroldeb ei waith cynllunio gwelliant a chymeradwywyd Cynllun Gwella 2014-15 yng nghyfarfod y Cyngor ar 23 Mai ac fe'i cyhoeddwyd ar 30 Mai 2014.

96 Yn yr hinsawdd ariannol heriol sydd ohoni, mae pob cyngor yn cael ei annog i herio modelau darparu gwasanaethau presennol, er mwyn datblygu ffyrdd mwy effeithlon ac effeithiol o weithio a chymryd risgiau wedi'u rheoli'n dda. Mae Sir Fynwy wedi datblygu a chyflwyno nifer o ddulliau newydd, yn cynnwys rheoli galw a chydgysylltu ardal leol fel rhan o'i ymgyrch i ad-drefnu'r Cyngor ar gyfer y dyfodol. Nid ydym mewn sefyllfa eto i farnu llwyddiant ac effaith y newidiadau hyn a byddwn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor o ran gwella ei drefniadau a'i berfformiad.

97 Ond mae meysydd i'w gwella o hyd nad ymdrinnir â hwy'n effeithiol, er enghraifft, o ran cyflawni gwelliannau mewn rhai meysydd â blaenoriaeth, o ran hunanasesu a herio perfformiad y Cyngor.

98 Yn ein Hadroddiad Gwella Blynyddol blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2013, cafwyd cyfeiriadau cadarnhaol at gryfder arweinyddiaeth ariannol y Cyngor sydd wedi ymdrin yn dda â'r heriau cyllidebol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r Cyngor yn parhau i bennu a rheoli ei gyllideb yn dda ond mae bellach yn wynebu mwy o heriau sylweddol yn dilyn newidiadau sylfaenol i'r hinsawdd ariannol.

99 Er gwaethaf setliad grant heriol iawn gan Lywodraeth Cymru, mae'r Cyngor wedi pennu cyllideb fantoledig ar gyfer 99-2014. Yn dilyn cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu â'r cyhoedd, llwyddwyd i gyflawni hyn drwy nodi £7.2 miliwn o arbedion, defnyddio cronfeydd cyffredinol a chronfeydd a neilltuwyd wrth gefn gwerth £2.1 miliwn a chynyddu'r dreth gyngor 3.95 y cant. Nodwyd bwlch ariannu o £11.3 miliwn ar gyfer 2015-16 i 2017-18. Er mwyn cau'r blwch hwn, disgwylir i'r cynnydd o 3.95 y cant yn y dreth gyngor gynhyrchu £4 miliwn, a daw £6.9 miliwn o arbedion cylchol ac ychwanegol gyda'r gweddill yn dod o gronfeydd wrth gefn.

100 Ar ôl naw mis, mae'r Cyngor yn rhagweld gorwariant o £0.336 miliwn ar ei gyllideb refeniw ar gyfer 2013-14 a bydd angen monitro goblygiadau posibl hyn o ran yr effaith ar gronfeydd wrth gefn, yn arbennig o ran sicrhau y cedwir balansau cyffredinol ar lefel ddarbodus.

101 Mae gwariant cyfalaf o dan bwysau hefyd. Mae buddsoddiad yn y dyfodol mewn cynlluniau cyfalaf, yn arbennig o ran rhaglen ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif y Cyngor, yn dibynnu ar lwyddiant y Cyngor yn y dyfodol yn derbyn derbyniadau cyfalaf disgwyliedig ac mae risgiau sylweddol ynghlwm wrth hyn.

102 Mae'r heriau ariannol cynyddol yn rhoi cryn bwysau ar swyddogion ac aelodau, ond rydym yn parhau'n hyderus y bydd y Cyngor yn parhau i reoli ei sefyllfa ariannol mewn ffordd gadarn a chyfrifol. Byddwn yn parhau i fonitro'r ffordd y mae'r Cyngor yn datblygu ei gynigion manwl i reoli ei sefyllfa ariannol.

103 Bydd Estyn yn parhau i fonitro cynnydd y Cyngor yn erbyn ei gynllun gweithredu yn dilyn arolygiad drwy gydol y flwyddyn.

104 Yn seiliedig ar hyn a chan ystyried casgliadau'r adroddiad hwn, cred Archwilydd Cyffredinol Cymru ei bod yn ansicr p'un a fydd y Cyngor yn bodloni gofynion y Mesur o ran gwneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

# Atodiadau

## Atodiad 1
## Statws yr adroddiad hwn

O dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 (y Mesur) mae'n ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol gynnal asesiad gwella blynyddol, a chyhoeddi adroddiad gwella blynyddol, ar gyfer pob awdurdod gwella yng Nghymru. Mae'r gofyniad hwn yn cwmpasu cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Lluniwyd yr adroddiad hwn gan Swyddfa Archwilio Cymru ar ran yr Archwilydd Cyffredinol er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 24 o'r Mesur. Mae'r adroddiad hefyd yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan adran 19 i gyflwyno adroddiad sy'n ardystio ei fod wedi cynnal asesiad gwella o dan adran 18 ac yn nodi a yw o'r farn, o ganlyniad i'w archwiliad o'r cynllun gwella o dan adran 17, fod yr awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau o ran cynllunio gwelliant o dan adran 15.

Mae gan awdurdodau gwella ddyletswydd gyffredinol i 'wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus wrth gyflawni eu swyddogaethau'.  Diffinnir awdurdodau gwella fel cynghorau lleol, parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub.

Yr asesiad gwella blynyddol yw'r prif ddarn o waith sy'n galluogi'r Archwilydd Cyffredinol i gyflawni ei ddyletswyddau. Mae'r asesiad gwella yn asesiad sy'n edrych i'r dyfodol o'r tebygolrwydd y bydd awdurdod yn cydymffurfio â'i ddyletswydd i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus. Mae hefyd yn cynnwys asesiad ôl-weithredol i nodi a yw awdurdod wedi cyflawni'r gwelliannau a gynlluniwyd ganddo er mwyn llunio barn ar hanes yr awdurdod o ran sicrhau gwelliant.  Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn crynhoi ei waith archwilio ac asesu mewn Adroddiad Gwella Blynyddol cyhoeddedig ar gyfer pob awdurdod (o dan adran 24).

O dan rai amgylchiadau, gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd gynnal arolygiadau arbennig (o dan adran 21), y cyflwynir adroddiad arnynt i'r awdurdod a'r Gweinidogion, ac y gall eu cyhoeddi (o dan adran 22). Un o weithgareddau atodol pwysig Swyddfa Archwilio Cymru yw cydgysylltu gwaith asesu a rheoleiddio (sy'n ofynnol o dan adran 23), sy'n ystyried rhaglen waith gyffredinol pob rheoleiddiwr perthnasol mewn awdurdod gwella. Gall yr Archwilydd Cyffredinol hefyd ystyried gwybodaeth a rennir gan reoleiddwyr perthnasol (o dan adran 33) yn ei asesiadau.

# Atodiad 2
# Gwybodaeth ddefnyddiol am Sir Fynwy a Chyngor Sir Fynwy

## Y Cyngor

Mae gan y Cyngor gyllideb o £179.8 miliwn ar gyfer 2013-14, sy'n cyfateb i tua £1,965 fesul trigolyn. Yn yr un flwyddyn, roedd gan y Cyngor gyllideb gyfalaf o £18.4 miliwn hefyd.

Yn 2012-13, treth gyngor Band D ar gyfer Sir Fynwy oedd £1,229 y flwyddyn. Mae hyn wedi cynyddu 0.6 y cant i £1,236 y flwyddyn ar gyfer 2013-14. Mae 46.6 y cant o dai Sir Fynwy yn perthyn i fandiau treth gyngor A i D.

Mae'r Cyngor yn cynnwys 43 o aelodau etholedig sy'n cynrychioli'r gymuned ac sy'n gwneud penderfyniadau am flaenoriaethau a'r defnydd a wneir o adnoddau. Mae aelodaeth wleidyddol y Cyngor fel a ganlyn:

- 19 o Geidwadwyr
- 10 Aelod Annibynnol
- 11 o'r Blaid Lafur
- Tri o Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru

Prif Weithredwr Sir Fynwy yw Paul Matthews. Ceir tri Phrif Swyddog sy'n cwmpasu Addysg (Simon Burch), Menter (Kellie Beirne) a Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (Sarah McGuiness). Mae'r tîm Arwain Strategol yn cynnwys y Prif Weithredwr, y tri Phrif Swyddog, a'r Pennaeth Cyllid (Joy Robson), y Pennaeth Democratiaeth (Tracey Harry), y Pennaeth Partneriaethau (Will McLean), y Pennaeth Gweithrediadau (Roger Hoggins) a'r Pennaeth Arloesi (Peter Davies).

## Gwybodaeth arall

Aelod y Cynulliad dros Sir Fynwy yw:

- Nick Ramsey, Sir Fynwy, Ceidwadwr

Aelodau Rhanbarthol y Cynulliad dros Sir Fynwy yw:

- Mohammad Asghar, Dwyrain De Cymru, y Blaid Geidwadol
- Jocelyn Davies, Dwyrain De Cymru, Plaid Cymru
- Lindsay Whittle, Dwyrain De Cymru, Plaid Cymru
- William Graham, Dwyrain De Cymru, y Blaid Geidwadol

Yr Aelodau Seneddol dros Sir Fynwy ar gyfer 2010-15 yw:

- David Davies, Sir Fynwy, Ceidwadwr.

I gael rhagor o wybodaeth, ewch i wefan y Cyngor yn www.monmouthshire.gov.uk neu cysylltwch â'r Cyngor yn Blwch Post 106, Cil-y-coed, NP26 9AN.

# Atodiad 3
# Llythyr Archwilio Blynyddol

Y Cynghorydd Peter Fox
Arweinydd
Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir
Y Rhadyr
Brynbuga
Sir Fynwy
NP15 1GA

Annwyl Gynghorydd Fox

## Llythyr Archwilio Blynyddol

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi'r negeseuon allweddol sy'n deillio o'm cyfrifoldebau statudol o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 fel yr Archwilydd Penodedig a'm cyfrifoldebau adrodd o dan y Cod Ymarfer Archwilio.

## Cydymffurfiodd y Cyngor â'i gyfrifoldebau yn ymwneud ag adroddiadau ariannol a defnyddio adnoddau

Cyfrifoldeb y Cyngor yw:

- rhoi systemau rheolaeth fewnol ar waith i sicrhau rheoleidd-dra a chyfreithlondeb trafodion a sicrhau bod ei asedau'n ddiogel;
- cadw cofnodion cyfrifyddu cywir;
- paratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â gofynion perthnasol; a
- sefydlu ac adolygu'n barhaus drefniadau priodol i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd o ran ei ddefnydd o adnoddau.

Mae Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 yn ei gwneud yn ofynnol i mi:

- roi barn archwilio ar y datganiadau cyfrifyddu;
- adolygu trefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau; a
- rhoi tystysgrif yn cadarnhau fy mod wedi cwblhau'r broses o archwilio'r cyfrifon.

Mae awdurdodau lleol yng Nghymru yn paratoi eu datganiadau cyfrifyddu yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig. Mae'r Cod hwn yn seiliedig ar Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol.

Ar 30 Medi 2013, rhoddais farn archwilio ddiamod ar y datganiadau cyfrifyddu, gan gadarnhau eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa a thrafodion ariannol y Cyngor. Mae fy adroddiad wedi'i gynnwys yn y Datganiad Cyfrifon. Cyflwynwyd y materion allweddol a oedd yn deillio o'r archwiliad o'r cyfrifon i aelodau'r Pwyllgor Archwilio ac i'r Cyngor llawn yn fy adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol ar 19 a 26 Medi 2013 yn y drefn honno.

Nodwyd gennym ein bod wedi gwneud nifer fach o newidiadau i'r Datganiad o'r Cyfrifon drafft ac nad oedd unrhyw un ohonynt yn berthnasol. Nodwyd gennym hefyd, er ein bod wedi nodi rhai camddatganiadau, nad oeddent hwy ychwaith yn berthnasol ac felly na chawsant unrhyw effaith andwyol ar y farn archwilio.

Cyflwynwyd adroddiad pellach, Dogfen Cynnydd ar y Cyd, a oedd yn crynhoi'r holl faterion a nodwyd o'n harchwiliad i'r Pwyllgor Archwilio ar 7 Tachwedd y dylai'r Cyngor ymdrin ag ef fel rhan o'r trefniadau ar gyfer llunio cyfrifon 2013-14. Yn ystod ein harchwiliad 2013-14, byddwn yn olrhain y cynnydd a wnaed gan swyddogion i ymdrin â'r materion hyn a byddwn yn hysbysu aelodau'r Pwyllgor Archwilio yn briodol am ganlyniadau'r gwaith hwn.

Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi nodi gwendidau yn nhrefniadau'r Cyngor ar gyfer rheoli grantiau. Mae ein gwaith ardystio grantiau ar gyfer 2012-13 yn mynd rhagddo a chyflwynir adroddiad ar ganlyniadau ein gwaith, gan gynnwys ein gwaith dilynol ar ein hargymhellion, i Bwyllgor Archwilio'r Cyngor ddechrau 2014.

Mae fy ystyriaeth o drefniadau'r Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wedi'i seilio ar y gwaith archwilio a wnaed ar y cyfrifon ac rwyf hefyd wedi dibynnu ar y gwaith a gwblhawyd fel rhan o'r Asesiad Gwella o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009. Ar y cyfan, rwy'n fodlon bod gan y Cyngor drefniadau priodol ar waith. Bydd yr Archwilydd Cyffredinol yn tynnu sylw at y meysydd lle nad yw effeithiolrwydd y trefniadau hyn wedi'u profi eto neu lle y gellid gwneud gwelliannau pan fydd yn cyhoeddi ei Adroddiad Gwella Blynyddol.

O ran y dyfodol, bydd y setliad cyllidebol diweddar yn golygu y bydd pob corff llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu sefyllfaoedd ariannol heriol iawn. Mae'r Cyngor wedi nodi bwlch ariannu o £22 miliwn dros y pedair blynedd nesaf ac er bod y Cyngor wrthi'n diweddaru ei Gynllun Ariannol Tymor Canolig ac yn nodi'r meysydd lle y gellid gwneud arbedion i leihau'r bwlch hwn, dylid sicrhau y rhoddir trefniadau priodol ar waith i fonitro'n ofalus i ba raddau y mae'r Cyngor yn cyflawni'r targedau arbedion terfynol.

Cyhoeddais dystysgrif yn cadarnhau bod yr archwiliad o’r cyfrifon wedi’i gwblhau ar 30 Medi 2013.

Ar hyn o bryd, disgwylir i’r ffi archwilio ariannol ar gyfer 2012-13 fod yn unol â’r ffi y cytunwyd arni a nodir yn yr Amlinelliad o’r Archwiliad Blynyddol.

Yn gywir

**Richard Harries**

Dros ac ar ran yr Archwilydd Penodedig
21 Tachwedd 2013

cc. Mr Paul Matthews, Prif Weithredwr
Mrs Joy Robson, Pennaeth Cyllid

# Atodiad 4
# Amcanion gwella a hunanasesiad Cyngor Sir Fynwy

## Amcanion gwella'r Cyngor

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor wneud cynlluniau i wella ei swyddogaethau a'r gwasanaethau a ddarperir ganddo. Bob blwyddyn mae'n rhaid iddo gyhoeddi'r cynlluniau hyn ynghyd ag 'amcanion gwella' penodol sy'n nodi'r pethau allweddol y mae'r Cyngor yn bwriadu eu gwneud i wella. Mae'n rhaid i'r Cyngor wneud hyn cyn gynted â phosibl ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn.

Cyhoeddodd y Cyngor ei amcanion gwella ar gyfer 2013-14 yn ei ddogfen *Sustainable and Resilient Communities 2013-2016* sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn www.monmouthshire.gov.uk/wp-content/uploads/2013/08/Stage-1-Improvement-Plan-2013-16_2.01.pdf

| Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13 | Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14 |
|---|---|
| Byddwn yn parhau i ddod â gwasanaethau iechyd, gwasanaethau gofal cymdeithasol ac asiantaethau annibynnol ynghyd i greu model unigol o ofal yn y gymuned, sef Rhaglen Eiddilwch Gwent. Yn fwy penodol eleni, byddwn yn parhau i weithredu timau amlddisgyblaeth er mwyn sicrhau arfer integredig a rhoi'r rhaglen 'Missing link' ar waith sy'n anelu at wella ein hymateb i blant sydd ar goll/sydd wedi rhedeg i ffwrdd. | Byddwn yn darparu gwell darpariaeth addysg i Sir Fynwy. |
| Rydym am wella ffyniant ein sir a'i hatyniad i fusnes. Eleni byddwn yn adeiladu ar y cynnydd a wnaed gennym wrth helpu busnesau sy'n bodoli eisoes a busnesau newydd a hefyd yn troi ein ffocws at sicrhau'r elw ariannol a chymdeithasol gorau posibl ar fuddsoddi yn ein heconomi dwristiaeth. | Byddwn yn gweithio i helpu pobl i fyw eu bywydau eu hunain drwy ddatblygu gwasanaethau hyblyg ac ymatebol gan adeiladu ar gryfderau pobl a helpu pobl i ddod o hyd i gysylltiadau lleol ac atebion parhaus i'w hanghenion. |
| Rydym am fynd ati i adfywio a datblygu'r ardal mewn ffordd gydgysylltiedig a chynhwysfawr. Gan barhau o'r llynedd, byddwn yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau allweddol naill ai i adolygu cynlluniau adfywio sy'n bodoli eisoes neu i ddatblygu cynlluniau adfywio ardal cyfannol newydd ar gyfer ein trefi allweddol, sef y Fenni, Cil-y-coed, Cas-gwent a Threfynwy. Byddwn hefyd yn defnyddio'r dull hwn i ddatblygu cymunedau llai gan ddechrau yn Llanelly Hill ac Overmonnow. | Byddwn yn helpu i adfywio ein trefi ac i greu cyfleoedd cyflogaeth yn y sir. |

| Amcanion Gwella ar gyfer 2012-13 | Amcanion Gwella ar gyfer 2013-14 |
|---|---|
| Rydym am wella'r ffordd rydym yn darparu addysg er mwyn sicrhau'r cyfleoedd dysgu gorau i'n plant, ein pobl ifanc a'r gymuned ehangach. Yn fwy penodol eleni, byddwn yn rhoi'r Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar waith fel dull gweithredu ar y cyd rhwng awdurdodau er mwyn datblygu gwell arferion addysgu a dysgu, byddwn yn dechrau ar y broses o wella safleoedd ysgolion er mwyn sicrhau eu bod yn addas i ddarparu addysg ar gyfer yr 21ain ganrif a byddwn yn parhau â'n rhaglen o adeiladu seilwaith TGCh modern o fewn ein hysgolion. | Rydym yn awyddus i weithio gyda'n trigolion i leihau'r effaith a gawn ar yr amgylchedd ac i ddefnyddio ein hadnoddau mewn ffordd fwy cynaliadwy. |
| Rydym am weithio gyda'n partneriaid a'r gymuned i gynyddu faint o wastraff a gaiff ei reoli mewn ffordd gynaliadwy a gweithio tuag at ddewis amgen cynaliadwy hirdymor i safleoedd tirlenwi. Fel rhan o hyn, byddwn yn datblygu Prosiect Gwyrdd er mwyn cynnig ffordd hirdymor a chynaliadwy o drin gwastraff gweddilliol. | Rydym yn awyddus i barhau'n sefydliad effeithlon ac effeithiol, gan gyflawni ein blaenoriaethau mewn cydweithrediad â phartneriaid allweddol, rhanddeiliaid a dinasyddion, yn erbyn cefndir o gyfyngiadau ariannol parhaus sylweddol. |
| Rydym am foderneiddio'r ffordd y caiff y Cyngor ei redeg er mwyn gwella ein ffordd o weithio. Yn fwy penodol, byddwn yn canolbwyntio ar newid diwylliant ein sefydliad er mwyn sicrhau ein bod yn gwrando ar yr hyn y mae ein cymunedau am ei gael ac yn dod yn fwy ymatebol ac arloesol wrth ddiwallu'r anghenion hynny. | |

## Hunanasesiad y Cyngor o berfformiad

Gellir gweld hunanasesiad y Cyngor o'i berfformiad yn y ddogfen Looking at the Future: *Your County Your Way. How we performed 2012/13 Improvement Plan – Stage 2* sydd ar gael ar wefan y Cyngor yn: www.monmouthshire.gov.uk/wp-content/uploads/2013/09/2013-14_Improvement-Plan_Stage-2_2.0-Published.pdf

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Textphone: 029 2032 0660

E-mail: info@wao.gov.uk
Website: www.wao.gov.uk

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn Testun: 029 2032 0660

E-bost: info@wao.gov.uk
Gwefan: www.wao.gov.uk